Llwybrau Hyrwyddedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

# Llyn Tegid Gogledd, Y Bala

CYMEDROL




### Trosolwg o'r Daith


- Pellter: 10km (6.2 milltir)
- Hyd: 5 awr
- Math o daith: Un ffordd

### ⚠ Cyn i chi gychwyn

Darllenwch y wybodaeth diogelwch a graddio llwybrau ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri cyn i chi gychwyn ar eich taith.

[eryri.llyw.cymru](https://eryri.llyw.cymru)

V-20231127/2024




Ewch i'r chwith o fynedfa maes parcio blaendraeth Llyn Tegid a cherddwch ar hyd y palmant, heibio maes parcio Fron Feuno ger Llanycil, nes y gwelwch y fynedfa am Fferm Fron Feuno ar yr ochr draw i'r ffordd.




Croeswch y ffordd a dilynwch y trac canol sy'n arwain am Fron Feuno. Pan gyrhaeddwch dro yn y trac, dilynwch y llwybr cyhoeddus sy'n arwain i'r chwith. Dilynwch y llwybr trwy'r coed. Pan ddewch allan o'r coed, cerddwch i fyny'r cae gan ddilyn y ffos nes y gwelwch bostyn cyfeirio. Ewch i'r chwith o'r postyn nes y cyrhaeddwch nant Gwenwyn Meirch. Ewch i lawr gyda'r nant nes y gallwch ei chroesi ar bont droed.




Dilynwch y llwybr ar draws y cae, ac yn syth trwy Faes Carafanau Plas Moel y Garnedd nes y cyrhaeddwch gamfa. Ewch dros y gamfa ac ar draws y cae gan anelu am fferm Moel y Garnedd Uchaf. Mae'r llwybr cyhoeddus yn arwain i'r dde ac o gwmpas y fferm. Unwaith y byddwch wedi mynd heibio'r fferm, dilynwch yr arwyddion llwybr cyhoeddus sy'n eich arwain at Dy'n y Rhos. O Dy'n y Rhos, dilynwch yr arwyddion sy'n eich cyfeirio dros dir agored Gwastadros.




Croeswch y rhostir gan anelu i'r chwith o'r coed. Ar ôl mynd heibio'r coed pinwydd, dilynwch y llwybr ar hyd ymyl y cae nes y dewch at ffordd wledig.





Dilynwch y ffordd i lawr i'r chwith a dilynwch yr ail lwybr cyhoeddus ar y dde. Dilynwch y llwybr ar draws y cae sy'n arwain am fferm Llwyn Mawr Uchaf. O Lwyn Mawr Uchaf, dilynwch y llwybr yn syth ymlaen ar hyd y trac ac ar draws y cae tuag at fferm Llwyn Mawr Isaf. O Lwyn Mawr Isaf, dilynwch y trac i lawr at y ffordd ger Pentre-felin.




O'r ffordd, bydd y daith yn dilyn trac am Goed Swch y Pentre. Llwybr Cwrteisi ydi'r rhan yn fan hyn felly ni fydd yn ymddangos ar fap OS. Pan fydd tro yn y trac yng Nghoed Swch y Pentre, ewch i'r chwith oddi ar y trac a dilynwch ymyl y coed.




Pan gyrhaeddwch bigyn deheuol y goedwig ifanc, dilynwch y llwybr cyhoeddus i'r dde. Bydd y llwybr yn mynd â chi heibio ochr ogleddol safle hen gaer Rufeinig Caer Gai, ac yna ar hyd trac tuag at fferm Weirglodd Wen. Ger y Weirglodd Wen bydd y trac yn fforchio – dilynwch y trac i'r dde a heibio blaen y fferm.




O'r Weirglodd Wen, dilynwch y llwybr nes y byddwch yn ymuno â ffordd wledig ar gornel siarp. Dilynwch y ffordd i'r dde a heibio'r Weirglodd Ddu.




Ewch yn eich blaen ar hyd y ffordd a heibio capel mawr ar y dde. Ychydig wedi'r capel, dilynwch y llwybr i lawr i'r chwith sy'n dilyn Afon Lliw. Yn y man fe ddewch at y ffordd fawr gyda phont ar y dde. Dilynwch y ffordd i'r dde a thros y bont. Ymhen ychydig fe ddewch at y Gilfach Goffa.